

iii) Darllenwch stori Iesu a'r wraig o Samaria (Ioan 4: 4-42).

Gallwch, os dymunwch, ddefnyddio 365 o storïau o'r Beibl, tud. 274, sy'n rhannu'r stori'n ddwy, neu gyflwyno crynodeb o'r stori, fel hyn:

Roedd Iesu'n gorfod teithio trwy Samaria ar ei ffordd o Iwdea i Galilea. Cyrhaeddodd pentref Sychar tua hanner dydd ac eistedd wrth y ffynnon. Daeth gwraig o Samaria at y ffynnon i dynnu dŵr. Gofynnodd Iesu iddi hi am ddiod, a dyma ddechrau sgwrs rhyngddynt. Mae'r sgwrs yn cychwyn gyda mater perthynas Iddewon a Samariaid a phriodoldeb gŵr o Iddew yn siarad â gwraig o Samaria, ond mae'n arwain at drafodaeth am ddŵr bywiol, beth yw addoliad, a dyfodiad y Meseia. Mae'r cyfarfyddiad yn gyrru'r wraig yn ôl i'w phentref i ddweud wrth y pentrefwyr eraill am fynd i weld Iesu, oherwydd fe allai hwn fod y Meseia.

Mae'r cyfarfyddiad yn dechrau gydag Iesu yn gofyn am rywbeth syml - diod o ddŵr. Mae hyn yn ei dro yn cychwyn sgwrs, sy'n fodd i adeiladu perthynas ac sy'n agor y drws i drafodaeth ar faterion dyfnach.

Gofynnwch i aelodau'r grŵp feddwl am gyfarfyddiadau a sgysiau eu diwrnod hwy heddiw.

- 1) A fu unrhyw gyfarfyddiad/sgwrs yn fodd i adeiladu neu gryfhau perthynas?
- 2) A fu unrhyw gyfarfyddiad/sgwrs yn help iddyn nhw ddeall rhywun arall yn well neu i rywun arall eu deall hwy yn well?
- 3) A oedd unrhyw gyfarfyddiad/sgwrs wedi dangos neu roi hyder i eraill?
- 4) A fu unrhyw gyfarfyddiad/sgwrs ble bu cyfle posibl i drafod materion ffydd? Os do, pam na ddigwyddodd hynny?
- 5) Pa ddisgwyliadau sydd gennym am gyfarfyddiadau bywyd bob dydd a'r sgysiau yr ydym yn rhan ohonynt?
- 6) Sut allai addoliad a bywyd yr eglwys ein helpu ni i fod yn fwy o ddisgyblion cenhadol?

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg



Meithrin ac Adeiladu Eglwysi

Blwyddyn 1, Rhan 4

Mai - Mehefin 2017

Sut i ddefnyddio'r deunydd

Awgrymwch eich bod yn rhannu'r bedwaredd rhan hon o'r cynllun yn bum sesiwn yn ystod misoedd Mai a Mehefin 2017. Mae cwestiynau pob sesiwn ar dudalen 2.

Sesiwn A: Gwylio'r bennod, *Yr her o adeiladu'r eglwys fyw*, a thrafod y cwestiynau.

Sesiwn B: Gwylio'r bennod, *Cenhadaeth eglwys fyw*, a thrafod y cwestiynau.

Sesiwn C: Gwylio'r bennod, *Nodweddion eglwys fyw*, a thrafod y cwestiynau.

Sesiwn Ch: Gwylio'r bennod, *Adeiladu'r eglwys fyw*, a thrafod y cwestiynau.

Sesiwn D: Gwylio'r bennod, *Ymateb yr eglwys fyw*, a thrafod y cwestiynau.

Noder: Fe fydd y ffilm *Meithrin ac Adeiladu Eglwysi* ar gael i'w lawr lwytho o wefan yr Undeb ym mis Mai.

Ar dudalennau 3 a 4 o'r daflen hon mae nifer o bethau eraill i helpu i lenwi sesiwn, ond cyn gorffen pob sesiwn byddai'n dda i'r grŵp drafod y cwestiwn:

Beth allwn ni fel eglwys ei wneud yn dilyn y drafodaeth hon?

Cwestiynau i'w trafod

Sesiwn A: Yr her o adeiladu'r eglwys fyw

- 1) Ydych chi wedi gweld dirywiad yn eich eglwys yn ystod eich cyfnod fel aelod? Ble mae'n dangos ei hunan yn bennaf? Beth sy'n gyfrifol amdano a beth ellid ei wneud i'w atal?
- 2) Pa mor onest ydym ynglŷn â sefyllfa ein heglwysi heddiw?
- 3) Beth gredwch chi yw'r her fwyaf sy'n wynebu eich eglwys?

Sesiwn B: Cenhadaeth eglwys fyw

- 1) Pa rhai o'r 5 pwynt cenhadol mae eich eglwys yn llwyddo i'w cyflawni? (Gweler gwaelod tudalen 3.)
- 2) Beth yw'r blaenoriaethau presennol ym mywyd eich eglwys, a pha flaenoriaethau fydddech chi yn hoffi eu gweld?
- 3) A ydych yn gallu meddwl am enghraifft ddiweddar ble'r ydych wedi ceisio bod yn bont rhwng yr eglwys a'r gymuned ehangach? Pa mor llwyddiannus fu hynny?

Sesiwn C: Nodweddion eglwys fyw

- 1) Beth fyddai'n gwneud eglwys ddelfrydol i chi?
- 2) Pa mor effeithiol yw addoliad eich eglwys i wneud yr aelodau'n ymwybodol eu bod yn rhan o rywbeth mwy na dim ond yr eglwys leol? Sut mae hynny'n dangos ei hunan?
- 3) I ba raddau mae eich eglwys chi yn gweithredu fel cymuned?

Sesiwn CH: Adeiladu'r eglwys fyw

- 1) Beth gredwch chi y mae eich adeiladau yn ei ddweud amdanoch fel eglwys?
- 2) Ydi addoliad a bywyd eich eglwys yn eich herio i fynd a'ch ffydd i mewn i'r gymuned ehangach?
- 3) Ble mae perthynas eich eglwys chi a'r gymuned leol yn gryf, a ble allai fod yn gryfach?

Gweithgarwch Ychwanegol

(i) Rhai o'r pethau a ddwedwyd am yr eglwys i ysgogi trafodaeth bellach:

'Y mae'r person da yn berson da, p'un ai yw yn yr eglwys neu'r tu allan iddi.'

'Y mae unrhyw un sydd am ddarganfod Crist yn gorfod, yn gyntaf, darganfod yr eglwys.'

'Dylai pobl yr eglwys gael eu hadnabod yn bennaf am eu gobaith.'

'Cymaint rwy'n dyheu am eglwys dlawd, sydd ar gyfer y tlawd.'

'Un o'r heriau mwyaf i Gristnogaeth yw sut i wneud cysylltiad gyda'r miliynau sy'n chwilio am Dduw, ond sydd ddim yn dod i'r eglwys.'

'Iesu yn unig sydd yn aros yr un, ddoe, heddiw ac am byth. Mae'r eglwys wastad wedi addasu a newid.'

(ii) Y pum nod cenhadol yw:

- a) **Rhannu'r efengyl** a dweud wrth bobl am gariad Duw;
- b) **Dysgu pobl** er mwyn eu helpu i dyfu fel disgyblion;
- c) **Dangos gofal ymarferol** dros ein gilydd;
- ch) **Trysori a gofalu am y greadigaeth**;
- d) **Trawsffurfio'r systemau** sy'n creu ac sy'n gyfrifol am anghyfiawnder.

Pa storïau neu ddarnau o'r Beibl sy'n dweud rhywbeth wrthyhych chi am sut i weithredu'r nodau hyn?